# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MAWRTH, 9FED IONAWR 2018 AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd W. David – Cadeirydd
Y Cynghorydd G. Oliver – Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

C. Andrews, J. Bevan, P.J. Bevan, A. Collis, S. Cook, A. Farina-Childs, D.T. Hardacre, B. Miles, Mrs T. Parry, J.E. Roberts, R. Saralis, R. Whiting.

Ynghŷd â:

K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Pennaeth Gwasanaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth Dros Dro), A. Davies (Rheolwr Gwasanaeth - Addysg Heblaw yn yr Ysgol), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), C. Jones ( Cydlynydd Fforwm Ieuenctid), P. O'Neill (Uwch Reolwr Gwasanaeth Ieuenctid), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro), C. Jones (Gweithredydd Cyfreithiol), A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn Bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili), Mr M. Barry a Mr R. Morgan (Rhiant Lywodraethwyr), Mrs P.J. Ireland Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (Undeb Cenedlaethol yr Athrawon) M. Western (Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Gynrychiolydd Addysg).

Cynrychiolwyr y Fforwm Ieuenctid: Emily Jones (Cadeirydd), Dylan Thomas (Is-Gadeirydd), Ewan Kinsman (Cynrychiolydd Dysgu), y Cynghorydd M. Evans (Pencampwr Ieuenctid).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Havard ac M.P. James.

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. COFNODION - 7FED TACHWEDD 2017

PENDERFYNWYD yn amodol ar gofnodi bod Mr M. Western yn bresennol yn y cyfarfod ar 26ain Medi 2017, cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes a gynhaliwyd ar 7fed Tachwedd 2017 (rhifau cofnodion 1-11) fel

cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**4. COFNODION - 7FED RHAGFYR 2017**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes a gynhaliwyd ar 7fed Rhagfyr 2017 (rhifau cofnodion 1-4) fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**5. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN**

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

**6. ADRODDIAD YR AELOD CABINET**

Cyflwynodd y Cynghorydd P. Marsden (Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad) ddatganiad ar lafar gan roi diweddariad i'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â Gwasanaethau Llyfrgell, Ysgol Rhymni 3 - 18 (Ysgol Idris Davies 3-18) a Blwyddyn Academaidd Dysgu Oedolion 2016/17 .

Eglurwyd bod Llyfrgelloedd o fewn Caerffili yn cefnogi pob oedran i fireinio eu galluoedd dylunio, rhesymeg a datrys problemau fel rhan o'r rhaglen codio 3 llinyn. Mae'r sesiynau sydd ar gael yn cwmpasu ystod o sgiliau, e.e. creu gwefannau i hybu sgiliau cyflogadwyedd. Mae manylion ar gael mewn llyfrgelloedd lleol ac ar Twitter @CaerphillyLibs. Llongyfarchodd Aelod y Cabinet Julie Thomas o Lyfrgell Deri a ddaeth yn ail-orau am wobr clodfawr Brif Bencampwr Llyfrgell Gyhoeddus y DU yn 2017. Y gydnabyddiaeth hon oedd am wneud gwahaniaeth go iawn i ddefnyddwyr llyfrgelloedd, yn enwedig gyda'i chysylltiadau unigryw â'r Gymuned a'r Ysgol.

Hysbyswyd yr Aelodau fod datblygiad £8 miliwn Ysgol Rhymni 3 - 18 (Ysgol Idris Davies 3-18) wedi'i gynllunio gan Dîm Gwasanaethau Eiddo'r Cyngor. Ariennir y prosiect ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Rhaglen Band A 21 Llywodraeth Cymru. Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg, gyda'r cyfnod Cynradd yn cynnwys 240 disgybl a meithrinfa. Mae'r adeilad cynradd newydd wedi ennill safon ragoriaeth "BREEAM" ar gyfer ardystio asesiad perfformiad cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yr ased.

O ran Darpariaeth Dysgu Oedolion, a Phartneriaeth Gwent gyfan, mae Caerffili wedi llwyddo i gwblhau cyfradd lwyddiannus o 91%. Mae hwn yn ganlyniad ardderchog ac yn arwydd o'r gwaith aruthrol y mae'r Tîm Dysgu Oedolion wedi'i gyflawni eleni. Nododd yr Aelodau y canlyniad a oedd yn sylweddol uwch na'r trothwy 85% a osodwyd gan Estyn. Yn 2018 bydd Caerffili yn parhau i weithio'n gryf gyda'r bartneriaeth i ddarparu addysg oedolion o ansawdd uchel.

Wrth gloi, dywedodd y Cynghorydd Marsden ei bod hi wedi mynychu cyfarfod manwl yn ddiweddar gyda Swyddogion o'r Adran Addysg o ran lefelau presenoldeb mewn ysgolion. Cadarnhaodd y cynhelir cyfarfodydd pellach yn arbennig yn edrych ar strategaethau hanesyddol a ffactorau amgylcheddol. Byddant hefyd yn edrych ar gymaryddion cenedlaethol a byddant yn chwilio am ddull casglu data mwy cadarn. Rhoddwyd pwyslais ar gynllunio ymyrrol ac esboniwyd y bydd y tîm yn edrych yn fwy manwl arno, h.y. llyfrau a ddefnyddir a dosbarthiadau mewn ysgolion a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd â rheoli perfformiad. Bydd y tîm yn mynd i mewn i ysgolion i edrych ar feini prawf yn rheolaidd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet am ei hadroddiad llawn gwybodaeth.

Gofynnwyd am eglurhad o ran y Ddarpariaeth Dysgu Oedolion ac os oedd ystadegau ar gael ar gyfer rhifau 'gollwng', ac os oes yna ddilyniant ar gyfer y rhai sy'n llwyddo y tu hwnt i'r ddarpariaeth.

Cadarnhaodd y swyddogion y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu yn dilyn y cyfarfod.

**7. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN**

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

**8. BLAEN RHAGLEN WAITH Y DYFODOL Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro yr adroddiad a oedd yn amlinellu Blaen Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor Craffu Addysg am Oes drafft o fis Ionawr 2017 hyd at fis Gorffennaf 2017.

Cyfeiriwyd y Pwyllgor Craffu at e-bost a anfonwyd ar 5ed Rhagfyr 2017, lle'r oedd yr Aelodau wedi cytuno i gael gwared ar Gynllun Busnes Y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg o gyfarfod mis Ionawr a'i ychwanegu at y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 26ain Chwefror 2018.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y rhaglen waith a gwneud unrhyw newidiadau neu gynnig unrhyw eitemau ychwanegol i'w cynnwys ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen waith a atodir i'r adroddiad.

**9. ADRODDIADAU'R CABINET**

Ni chafodd adroddiad y Cabinet a restrir ar yr agenda ei alw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod.

**ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

**10.** BLAENORIAETHAU'R FFORYMAU IAU AC IEUENCTID

Cyflwynodd Cydlynydd y Fforwm Ieuenctid yr adroddiad a chyflwynodd cynrychiolwyr y Fforwm Ieuenctid eu cyflwyniad a hysbysodd yr Aelodau am faterion a godwyd gan Blant a Phobl Ifanc drwy Fforymau Iau ac Ieuenctid y Gwasanaeth Ieuenctid. Gofynnodd yr adroddiad am farn yr Aelodau cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

Darparwyd trosolwg o Gynhadledd y Fforwm Ieuenctid ym mis Hydref 2017 a chyfarfod y Fforwm Iau ym mis Tachwedd 2017, lle mae Plant a Phobl Ifanc wedi nodi materion sy'n bwysig iddynt ac wedi pleidleisio ar Faterion Blaenoriaeth ar gyfer 2018. Nodwyd y broses gytûn flaenorol, sy'n dilyn adnabod materion, yn yr adroddiad.

Trafodwyd strwythur y Fforymau Iau ac Ieuenctid ac eglurwyd eu bod wedi'u trefnu o amgylch pum thema'r Cynllun Integredig Sengl: Caerffili Ffyniannus; Caerffili Saffach; Caerffili sy'n Dysgu; Caerffili Iachach; Caerffili Gwyrddach, sy'n galluogi plant a phobl ifanc i gael llais ar faterion sy'n effeithio arnynt. Mae Cynrychiolwyr y Fforwm Iau yn 7-11 oed; mae Cynrychiolwyr y Fforwm Ieuenctid yn 11-25 oed.

Yng Nghynhadledd Flynyddol y Fforwm Ieuenctid, rhoddir cyfle i bobl ifanc edrych ar faterion a

godwyd yn flaenorol drwy ymgynghori drwy'r fwrdeistref. Mae pobl ifanc sy'n mynychu'r gynhadledd yn cyflwyno eu barn ar bob un o'r themâu ac yn cymryd rhan mewn deialog gyda Swyddogion perthnasol ac aelodau'r Cabinet. O archwilio pob thema yng nghyd-destun bywydau pobl ifanc, mae pobl ifanc yn nodi a chytuno ar fater blaenoriaeth ar gyfer pob thema, y mae manylion amdanynt wedi'u nodi ym mharagraffau 4.1.2. a 4.1.3. yn yr adroddiad. Mater Flaenoriaeth Gyffredinol y Fforwm Ieuenctid yw Bwlio ac i gynyddu dealltwriaeth pobl o'r hyn a ystyrir fel bwlio ac i helpu pobl i ddeall sut i ddelio â bwlio. Mater Flaenoriaeth Gyffredinol y Fforwm Iau yw Digartrefedd lle ystyrir bod angen mwy o gymorth ar gyfer pobl ddigartref.

Cyflwynodd cynrychiolwyr y Fforwm Ieuenctid eu cyflwyniad o ran cyrraedd eu materion blaenoriaeth a'r hyn a gyflawnwyd ganddynt yn 2017.

Estynnodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Ieuenctid ei werthfawrogiad am y gwaith caled parhaus a wnaed yn enwedig yn 2017, gan y Gwasanaeth Ieuenctid wrth gyflawni eu materion blaenoriaeth a chafodd hyn ei gefnogi gan y Pencampwr Ieuenctid ac Aelodau eraill y Pwyllgor Craffu.

O ran mater blaenoriaeth Bwlio, gofynnodd Aelod a yw pob ysgol yn mabwysiadu'r un polisi. Mae'r Fforwm Ieuenctid yn ystyried bod angen cysondeb ar ysgolion yn y maes hwn a bod angen arddangos y polisi hwnnw mewn ysgolion. Cadarnhaodd swyddogion fod gan y Cyngor bolisi enghreifftiol ar waith, er na ellir gweithredu hyn yn gyson gan y gallai hyn ddibynnu ar y proffil o fewn ysgolion unigol. Ymgymerwyd ag ymgyrch ardderchog lle mae'r Awdurdod Lleol wedi edrych ar y gwahanol fathau o fwlio a chyflwynodd y polisi hwn o ganlyniad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Fforwm Ieuenctid am fynychu'r Pwyllgor Craffu, gan gyflwyno eu cyflwyniad addysgiadol ac am ymateb i gwestiynau a godwyd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

**PENDERFYNWYD AM Y RHESYMAU A GYNHWYSIR YN ADRODDIAD Y SWYDDOG FOD:**

(i) materion y Fforwm Iau a Ieuenctid yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet;

(ii) cefnogaeth i gynnig y Fforwm Ieuenctid wrth fynd i'r afael â'u Mater Blaenoriaeth - Bwlio;

(iii) cefnogaeth i gynnig y Fforwm Iau wrth fynd i'r afael â'u Mater Blaenoriaeth - Digartrefedd.

## 11. MODEL YMDDYGIAD A DARPARIAETH CAERFFILI

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) yr adroddiad a oedd yn diweddaru'r Aelodau am y gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn i adolygu'r ddarpariaeth a'r model presennol ar draws Caerffili a'r canlyniadau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r camau a gymerwyd i sicrhau bod gan Gaerffili gynigion a hysbysir gan ystod o randdeiliaid i ddarparu model ymddygiad addas i'r pwrpas a chontinwwm darpariaeth ar gyfer dysgwyr Caerffili.

Hysbyswyd y Pwyllgor Craffu bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion pob dysgwr o fewn ymagwedd ysgol gyfan gynhwysol, gan gynnwys y dysgwyr hynny sydd ar ryw adeg efallai angen mwy o gefnogaeth arnynt na'r mwyafrif o'u cyfoedion. Dylai pob dysgwr gael mynediad i addysg briodol sy'n rhoi cyfle iddynt gyflawni eu potensial personol. Er mwyn sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad i addysg briodol, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid i adolygu'r ddarpariaeth ymddygiad bresennol. Mae'r rhain yn

cynnwys Penaethiaid cynradd ac uwchradd, staff yn y darpariaethau ymddygiad presennol a staff Addysg Heblaw Yn yr Ysgol (EOTAS).

Eglurwyd bod cyfarfodydd grŵp rhanddeiliaid wedi'u cynnal mewn perthynas â'r model ymddygiad a gynigiwyd a oedd hefyd yn ystyried y continwwm o anghenion ymddygiad ar draws Caerffili, gan gynnwys y rhai hynny sy'n mynychu darpariaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Cydnabuwyd bod ymateb graddedig ar draws ystod o ddarpariaethau tai cost-effeithiol yn opsiwn mwy cynaliadwy a dewisol. Mae prif ganlyniadau'r cyfarfodydd grŵp rhanddeiliaid wedi nodi sawl argymhelliad allweddol a nodir ym mharagraff 4.9. yn yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Gwasanaeth am ei diweddariad llawn gwybodaeth.

Cyfeiriodd Aelod at adroddiad yr Athro Donaldson a gofynnodd a oedd hyn wedi'i ystyried mewn perthynas â'r polisi. Eglurwyd nad yw swyddogion yn gwybod sut effaith caiff yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad wedi creu llawer o ddiddordeb yn y cyfryngau ond mae'r theori tu ôl i hyn yn gadarnhaol, gan edrych ar sgiliau a llwybrau bywyd heb unrhyw labelu cysylltiedig. Rhoddwyd pwyslais ar 'gael y cydbwysedd yn iawn' a dylid defnyddio hyn i gefnogi ymddygiad. O ran amharu ar lefel isel, mae yna rai cysylltiadau rhwng ymddygiad a safonau addysgu. Mae hwn yn faes cymhleth lle mae ysgolion a'r Awdurdod Lleol dan bwysau. Rhaid gwneud y penderfyniad cywir absoliwt wrth ystyried symud plentyn o ysgol oherwydd materion ymddygiadol. Mae'n benderfyniad radical a gellid ei ystyried yn anghyfrifol. Mae pob achos yn unigryw a rhaid ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. Cadarnhaodd y swyddogion y byddant yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion mewn perthynas â'r mater hwn.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â sicrhau'r gwerth gorau am arian ac a fyddai'r Awdurdod Lleol yn gallu rhoi darpariaeth yn fewnol gan y gall y ddarpariaeth Addysg Heblaw Yn yr Ysgol gyfredol, yn ystod Ysgolion Cynradd ac Uwchradd, bod a goblygiadau cost uchel. Eglurwyd nad yw'r broses hon yn ymarfer torri costau ac yn y tymor byr gall hyn fod yn ddrutach. Y gobaith yw y bydd y ddarpariaeth hon, gydag effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn fwy effeithiol yn yr hirdymor.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

## 12. GWELLA PRESENOLDEB MEWN YSGOLION

Cyflwynodd yr Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion yr adroddiad a hysbysodd yr Aelodau o'r cynnydd a wnaed wrth wella presenoldeb mewn ysgolion o fewn Bwrdeistref Caerffili. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2016/17 cafwyd gostyngiad siomedig o 0.1% mewn presenoldeb mewn ysgolion uwchradd o'i gymharu â 2015/16 ac mae'r data presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi aros yr un peth â'r flwyddyn flaenorol. Mae tystiolaeth o hyd o gydberthynas gref rhwng presenoldeb gwael a'r plant a phobl ifanc hynny sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim fel y nodir yn y Datganiad Ystadegol Ysgolion Uwchradd, y cyfeirir ato yn yr adroddiad.

Hysbyswyd y Pwyllgor Craffu bod yr Awdurdod Lleol yn gweithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill gan gynnwys Consortiwm De Ddwyrain Cymru i sicrhau bod dull cadarn yn cael ei gymryd tuag at wella presenoldeb. Mae gwella presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Gaerffili ac mae hyn yn parhau i fod yn ganolbwynt ym mhob cynllun allweddol. Caiff presenoldeb ei fonitro bob mis a chytunir ar ymyriadau targededig rhwng yr ALI a'r Gwasanaeth Cyflawniad Addysg. Mae effaith yr ymagwedd gyflym hon wedi bod yn effeithiol wrth leihau absenoldeb yn yr ysgolion a thargedwyd.

Nodwyd crynodeb o'r data cymharol mewn perthynas â phresenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn yr adroddiad. Mae datganiad ystadegol 2016/17 yn darparu trosolwg

cenedlaethol o'r codau ysgolion a ddefnyddir i adrodd am absenoldebau disgyblion. Nododd yr aelodau ddata'r ysgol unigol ar absenoldebau parhaus mewn ysgolion uwchradd.

O ran y Tîm Lles Addysg, cadarnhaodd Swyddogion strwythur y tîm a sut mae'r Swyddogion hynny yn chwarae rhan hanfodol o fewn ysgolion fel rhan o'u dyletswydd statudol. Eglurwyd hefyd nad yw'r timau hyn bellach yn bodoli mewn llawer o Awdurdodau Lleol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am y diweddariad.
Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

## 13. CANLLAWIAU DIWYGIEDIG AR GYFER AROLYGU GWASANAETHAU ADDYSG LLYWODRAETH LEOL

Cyflwynodd yr Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion yr adroddiad a hysbysodd yr Aelodau o'r newidiadau i'r arolygiad o Wasanaethau Llywodraeth Leol o Fedi 2017. Mae'r adroddiad yn nodi sut y bydd yr arolygiaeth yn cynnal arolygiadau peilot o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (GALIL) o fis Medi 2017. Hysbyswyd y Pwyllgor Craffu y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r wybodaeth hon yn dilyn yr archwiliadau peilot a bydd yn cael ei defnyddio o fis Medi 2018. Defnyddiwyd y ddogfen ddrafft Canllawiau ar gyfer arolygu addysg llywodraeth leol o Fedi 2017 (Estyn, 2017) fel sail i'r adroddiad.

Mae'r wybodaeth hon yn nodi'r trefniadau arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol ac mae'n cynnig canllawiau i arolygwyr ar wneud dyfarniadau arolygu. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi sut y bydd Estyn yn mynd ar drywydd yr awdurdodau lleol sy'n achosi pryder mawr.

Holodd Aelod sut mae'r canllaw hwn yn cymharu â pholisïau blaenorol. Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru wedi darparu'r canllawiau, sydd bellach wedi'u diweddaru. Cyfeiriodd y Swyddog at Awdurdod cyfagos a fu'n ddiweddar drwy'r broses arolygu a chadarnhaodd fod llawer o sylwadau a dderbyniwyd wedi dod gan grwpiau sy'n agored i niwed. Mae holiadur ar gael i drigolion Caerffili ac nid yn unig i rieni ei gwblhau. Hysbyswyd y Pwyllgor Craffu y bydd y dystiolaeth a gasglwyd yn cael ei chyflwyno i ESTYN, ac fe gadarnhaodd yr Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion y bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn yn ddiweddarach yn y flwyddyn gyda diweddariad.

O ran gweithio gydag Estyn y tu allan i Arolygiadau, cadarnhaodd y Swyddogion fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal, ond nid yw'r Awdurdod yn derbyn adborth ac nid oes cofnod ffurfiol o'r cyfarfodydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am y diweddariad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.

Terfynwyd y cyfarfod am 8.05pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau i'w cytuno a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod sydd i'w gynnal ar 26ain Chwefror 2018 fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

________________________

CADEIRYDD